PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 14 TACHWEDD 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Hudson a/ac Mackie |

32 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cynghorwyr Lister a Murphy

33 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Roedd gan yr Aelodau gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

34 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2018 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

35 : RHEOLI'R YSTÂD DAN FODEL LANDLORD CORFFORAETHOL

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Y Cynghorydd Russell Goodway, Aelod Cabinet, Buddsoddi a Datblygu
- Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Helen Thomas, Pennaeth Eiddo
- Donna Jones, Rheolwr Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Janine Nightingale, Rheolwr Gweithredol

Yn dilyn ymchwiliad craffu manwl i heriau rheoli'r ystâd dan Fodel Landlord Corfforaethol, mae'r Cabinet yn ymgymryd i ymateb swyddogol i argymhellion y pwyllgorau craffu. Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor ystyried ymateb y Cabinet. Y Cynghorydd Joe Boyle oedd yn cadeirio'r gwaith hwn gan y Pwyllgor ac roedd y grŵp yn cynnwys y Cynghorwyr Mackie a Murphy a'r Cynghorydd McKerlich hefyd, a oedd yn aelod o'r Pwyllgor hwn y llynedd.

Eglurodd y Cynghorydd Goodway fod y Cabinet wedi ystyried y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, Rheoli'r Ystâd dan Fodel Landlord Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2018. Cafodd chwech o'r saith argymhelliad eu derbyn a chafodd A6 ei dderbyn yn rhannol.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu gwybodaeth am yr Argymhellion a'r Ffrwd Gwaith o ran Gweithredu Model Landlord Corfforaethol.

Diolchodd y Cadeirydd y Swyddogion am y wybodaeth gan wahodd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd Landlord Corfforaethol yn cwympo o fewn Datblygu Economaidd neu Addysg.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod yr adnodd Materion Eiddo'r adran Addysg wedi symud i'r tîm Datblygu Economaidd. Byddai Janine Nightingale, Rheolwr Gweithredol yn gweithredu dau dîm:

- Cynllunio Lleoedd
- Rhaglen Gorfforaethol

Byddai gan y rhain eu llywodraethiant eu hunain, gan gynnwys Byrddau Project a Rhaglen. Roedd y Bwrdd Rhaglen yn is-bwyllgor o'r Cabinet, ac roedd aelodaeth ohono'n cynnwys y Cynghorydd Huw Thomas, y Cynghorydd Chris Weaver a'r Cynghorydd Russell Goodway. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yr wythnos diwethaf ac roedd y Bwrdd yn edrych ar ysgolion Band A a Band B.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Argymhelliad 6 wedi cael ei dderbyn yn rhannol oherwydd roedd angen cynnal cyllidebau a chanolbwyntio ar gydymffurfiaeth.

Tynnodd y Cynghorydd Goodway sylw at y cynlluniau sydd ar waith i leihau a lliniaru problemau presennol gydag adeiladau y mae rhai ysgolion yn eu hwynebu. Roedd y llwybr Model Buddsoddi Cydfuddiannol wedi cael ei ystyried ar gyfer ariannu penodol, ynghyd â dadansoddi arian cynnal a chadw posibl. Roedd hi'n allweddol bod dulliau creadigol yn cael eu llunio er mwyn cadw ystâd yr ysgol mewn defnydd gweithredol.

Rhoddodd Janine Nightingale wybodaeth i'r Pwyllgor am y projectau Band B. Cydnabuwyd bod ôl-groniad o waith cynnal a chadw, yn enwedig mewn ysgolion a adeiladwyd yn y 60au a'r 70au. Byddai'r dyraniad o £5miliwn o gyfalaf yn cael ei ddefnyddio i edrych ar y meysydd sydd angen eu blaenoriaethu, megis iechyd a diogelwch a gweithdrefnau tân.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor bod ysgolion a adeiladwyd yn y 60au a'r 70au yn cynnwys asbestos. Roedd arolygon yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r broblem, ond roedd angen darlun cyflawn o'r problemau asbestos cyn bwrw ymlaen â'r cynlluniau, gan nad oedd y wybodaeth bresennol yn gwbl gyfredol.

Roedd y rhaglen Landlordiaid Corfforaethol yn datblygu ac yn defnyddio sgiliau mewnol i fynd i'r afael â phroblemau a ddaeth i law yn yr ystâd. Golygodd hyn y cafwyd gwell gwerth am arian ac roedd swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn dadansoddi'r gwaith y gellir ei gynnal yn fewnol.

Clywodd y Pwyllgor ei fod yn hollbwysig cael y gwerth gorau am arian, gan ddefnyddio dull strategol i annog gwerth gorau yn y broses gaffael.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor beth oedd y weithdrefn o ran cynnal gwaith bach mewn ysgolion a phenderfynwyd y gallai ysgolion ofyn i gontractwyr preifat ddod i'r ysgol i gynnal gwaith o'r fath.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod One Frontdoor wedi cael ei sefydlu i sicrhau bod yr holl waith arfaethedig ar adeilad yr ysgol yn cael caniatâd gan y Landlord Corfforaethol i gynnal y gwaith. Roedd modd i ysgolion dewis peidio â bod yn rhan

o'r CLG, ond roedd rheolaethau ar waith i ddefnyddio contractwyr ag enw da drwy One Frontdoor yn gyntaf.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn falch o sut roedd RAMIS yn cefnogi iechyd a diogelwch mewn ysgolion a sut roedd yn blaenoriaethu ac yn monitro risgiau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor am y cymorth Iechyd a Diogelwch oedd yn cael ei gynnig i ysgolion a'r cymorth a ddarperir i Benaethiaid.

Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y prif gontractwyr ar waith a sut roedd y fframwaith caffael yn cael ei reoli.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Landlord Corfforaethol a oedd wedi'i hysbysebu'n flaenorol yn rhan o adolygiad gwasanaeth yn cael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2018. Ni fyddai unrhyw un yn cael ei benodi i'r swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Landlord Corfforaethol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu ei sylwadau a'i arsylwadau.

36 : ADRODDIAD BRIFFIO AR REOLI CYFLEUSTERAU

Croesawodd y Pwyllgor:

- Y Cynghorydd Russell Goodway, Aelod Cabinet, Buddsoddi a Datblygu
- Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- David Lowe, Rheolwr Gweithrediadau Gwasanaethau Masnachol

Eglurodd y Cadeirydd fod Aelodau wedi mynegi diddordeb mewn cwmpasu ymchwiliad craffu i'r gwasanaeth Rheoli Cyfleusterau yn ystod trafodaethau rhaglennu gwaith. I fwrw ymlaen â'r mater hwn, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am gael eu briffio ar holl faterion y Pwyllgor a'r heriau y mae'r gwasanaeth Rheoli Cyfleusterau'n eu hwynebu, gyda'r nod o ddechrau ymchwiliad yn 2019.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Cyflwyniad i Wasanaethau Eiddo – roedd Rheoli Cyfleusterau (RhC) yn y broses o gael ei ail-frandio i'r Gwasanaethau Eiddo.
- Gwasanaethau Adeiladu
- Gwasanaethau Glanhau a Chymorth
- Swyddogaethau
- Rheoli Adeiladau
- Rheoli Pla
- Cyllideb Adeiladu
- Her – Materion Cyllideb Adeiladu
- Cyllideb Adeiladu yn erbyn Gwariant 17/18
- Cyllideb Adeiladu – Wrth Symud Ymlaen

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor fod gorwariant o £559 mil. Felly roedd hi'n allweddol bod Rheoli Adeiladau'n gwella lefelau cydymffurfiaeth. Yn ogystal roedd y Cyfrif Refeniw Tai yn codi taliadau uniongyrchol.

Cyfeiriodd Aelodau'r Pwyllgor at y sail cwsmeriaid a rhoddwyd gwybod iddynt y bydd y gorbenion yn cael eu gostwng. Fodd bynnag, ni fyddai'r Cyngor yn edrych yn allanol i ehangu nifer y cleientiaid glanhau.

Clywodd y Pwyllgor fod contractau ag ysgolion yn rhoi elw isel iawn.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod cymhelliannau i ysgolion barhau i ddefnyddio contractwyr cymeradwy'r Cyngor, a thalu'r isafswm cyflog oedd un ohonynt.

Dywedwyd wrth yr Aelodau am y broses sydd ar waith ar hyn o bryd o ran ymdrin â chyfleustodau a thalu'r biliau nwy a thrydan. Roedd angen i adrannau fod yn ymwybodol o wariant mewn perthynas â chyfleustodau ac edrych ar sut y gellir ei reoli ar lefel adrannol.

Cafodd rheoli ysgolion ei drafod ynghyd â sut y gellir lleihau'r costau. Dylai ysgolion fod yn gyfrifol am gostau ynghyd a sicrhau yr oedd digon o safon ar gael, gydag ysgolion, o bosibl, yn talu costau'r landlordiaid.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn dilyn Trosglwyddiad Ased Cymunedol, mai'r Cyngor sydd yn dal i fod yn gyfrifol am adnoddau Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynnal i safon gymeradwy.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu ei sylwadau a'i arsylwadau.

37 : PERFFORMIAD CHWARTER 2 2018/19

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad.
Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau.
Andrew Simms, Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol.

Eglurodd y Cadeirydd y byddai Aelodau'n cynnal adolygiad o sefyllfa perfformiad Corfforaethol Chwarter 2 ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19. Roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro perfformiad cyffredinol y sefydliad a'r camau a gymerwyd i sicrhau bod targedau ac ymrwymiadau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cyflawni.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor am y gorwariant o £5m yn y gyllideb a ragamcanwyd ym mis 6. Byddai'n cael ei gydbwyso drwy ddefnyddio £3m o gronfeydd wrth gefn, gwarged yn y dreth gyngor, ad-daliad apêl ardrethi ar eiddo'r Cyngor, a thanwariant ar daliadau cyfalaf.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y cysylltiadau rhwng Perfformiad a Rheoli'r Gyllideb, a sut roedd hyn yn plethu â gosod targedau a rheoli perfformiad.

Eglurodd y Cynghorydd Weaver bod gorwariant yn amlwg yn y Gwasanaethau Plant, dan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafodd y gyllideb ei hadlinio y llynedd, ond roedd pwysau a galw ychwanegol wedi arwain at y gwasanaeth yn gorwario mwy. Doedd dim modd nodi tueddiadau yn y gorwariant ac elfen o alw oedd yn arwain y gwasanaeth at ddiffyg ac yn achosi graddfa'r gorwariant.

Roedd lefel gynhenid o ragweladwyedd yn y Gyfarwyddiaeth ac roedd proses ar waith i fynd i'r afael â pha mor fanwl gywir y gellir rhagfynegi. Roedd ychydig o arian ychwanegol wedi cael ei roi i'r gwasanaeth, ond roedd angen rhesymau dilys i wneud hynny. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa yn nhîm y Gwasanaethau Cymdeithasol, a chan nad oedd hi'n amlwg bod arferion gwaith wedi newid, cafodd gyllideb wrth gefn ei chyflwyno.

Roedd Aelodau o'r farn y dylid rhoi rheolaethau costau ar waith, gan sefydlu arferion gwaith cadarn i gefnogi'r pecynnau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod Tîm Broceriaeth wedi cael ei greu i gefnogi'r Gweithwyr Cymdeithasol. Byddai Gweithiwr Cymdeithasol yn cynnal asesiadau â'r Tîm Broceriaeth i wneud dadansoddiad o waith cost-effeithiol. Roedd y gwaith ar atal yn barhaus hefyd ac yn cael ei herio a'i brofi. Roedd y ffyrdd newydd hyn o weithio yn cael eu cyflwyno er mwyn lleihau'r angen yn y pen draw am adlinio.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y naratif yn yr adroddiad oedd yn ymwneud â'r MASH (Hyb Diogelu Amlasiantaethol). Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y radd RAG oren, ond nid oedd yn manylu ar y pwysau.

Sicrhawyd y Pwyllgor bod y pwysau yn cyfeirio at alw uwch am y gwasanaeth a bod hyn yn cael effaith ar adnoddau. Roedd y MASH yn elwa ar lwyddiant amlasiantaethol ac roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd yn edrych ar feysydd newydd o wella.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at nifer yr atgyfeiriadau oedd yn cael eu trin drwy'r MASH a gofynnwyd a oedd y trothwy wedi gostwng.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod y trothwy wedi newid wrth i fwy o unigolion fodloni'r trothwy blaenorol. Nodwyd nad oedd y dangosydd yn yr adroddiad wedi adrodd y wybodaeth yn gywir.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor bod y Cabinet a'r Uwch Dîm Rheoli wedi cyfeirio at y Rhaglen Uchelgais Prifddinas gan ddefnyddio dulliau heriol a chadarn.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y gwaith o benodi Gweithwyr Cymdeithasol ac awgrymodd y dylid defnyddio creadigrwydd i hyrwyddo a gwella'r broses o benodi staff i'r swyddi hyn.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at nifer y plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r bwlch cyrhaeddiad. Cafodd sawl achos ei gofnodi gan gynnwys ffactorau allanol, yr oedd y tîm Addysg yn mynd i'r afael a nhw drwy feincnodi a lliniaru.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor pa mor gadarn roedd y broses hunanasesu hon, ac roedd hi'n hollbwysig nad oedd y statws RAG oren yn troi'n goch erbyn Chwarter 3. Dylid codi'r materion hyn yn gynharach er mwyn datblygu camau lliniaru.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu ei sylwadau a'i arsylwadau.

38 : ADRODDIAD BUSNES Y PWYLLGOR

Rhoddwyd adroddiad i'r Pwyllgor yn amlinellu Busnes y Pwyllgor, yn arbennig:

- Ceisio cytundeb y Pwyllgor i ddechrau ymchwiliad i Effaith Craffu, ac ar gyfer y Cylch Gorchwyl a fyddai'n rhoi ffocws i'w waith.
- Rhoi gwybod i Aelodau am y gohebiaeth rhwng y Pwyllgor a'r Cabinet ers dechrau'r rhaglen waith yn 2018/19.
- Ceisio anghenion hyfforddi Aelodau craffu ar y gyllideb 2019/20.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor ar y canlynol:

- Ystyried y sgôp, y dull a gynigiwyd a chytuno ar Gylch Gorchwyl ar gyfer ymchwiliad i'r Effaith Craffu.
- Nodwyd yr ohebiaeth rhwng y Pwyllgor a'r Cabinet.

Cytunwyd ar drefniadau dewisol ar gyfer hyfforddiant craffu ar y gyllideb, gan ofyn bod y cyfarfod craffu ar y gyllideb yn cychwyn erbyn 1.30pm fan hwyraf.

39 : EITEMAU BRYS - UFA

Dim

40 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - 12 RHAGFYR 2018 AM 4.30PM